Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

a

# Nodyn Briffio 7 Munud ADUS


Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru

## CEFNDIR ADUS

Creu proses adolygu sengl pan fo angen dull gweithredu amlasiantaethol gan ymgorffori'r prosesau adolygu a ganlyn: Adolygiadau Ymarfer Oedolion; Adolygiadau Ymarfer Plant; Adolygiadau Lladdiadau Domestig; Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol. Wedi hyn, defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

## Y CYNNYDD HYD YMA

- Canllawiau Statudol ADUS wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.
- Y Gweinidog wedi anfon llythyr at yr holl bartneriaid allweddol yn cyhoeddi 1 Hydref yn ddyddiad lansio ac yn rhannu dolen i dudalennau gwe ADUS ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y Canllawiau Statudol, y Trefniadau Pontio a phecyn cymorth Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol | LLYW. CYMRU
- Llythyrau grant wedi'u hanfon i Fyrddau Diogelu




## Y CAMAU NESAF

- Cadarnhau'r nifer terfynol ar y rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr a chwblhau'r canllawiau ar sut i hawlio cronfa Lwfans Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.
- Pennu dyddiad ar gyfer cynnal Bwrdd Gweinidogol
- Sefydlu Cyfarfod Tasg a Chydlynu mewnol Llywodraeth Cymru i'w gynnal bob pythefnos gyda Phenaethiaid Canghennau allweddol er mwyn cydlynu ymatebion i ADUSau

## Y DIWEDDARAF

- Bydd Cyfarfod Gweinidogol rhwng y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a Gweinidog Diogelu y Swyddfa Gartref yn cael ei gynnal ar 23 Hydref er mwyn trafod ADUS a Phanel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref

## GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD

- Bydd y Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd wedi cyfarfod ar 18 Medi i gwblhau'r Siart Llif Ymgysylltu a rhoi sylwadau ar y ddogfen Gwybodaeth i Deuluoedd a'r fersiwn Pobl Ifanc a Hawdd ei Deall o Ganllawiau Statudol ADUS.

## Y DIWEDDARAF AM STORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae'r holl adolygiadau Ymarfer Oedolion ac adolygiadau Ymarfer Plant sydd wedi'u cyhoeddi bellach wedi'u casglu ac maent wrthi'n cael eu codio a'u rhoi yn y Storfa.
- Yn rhan o'r trefniadau pontio, bydd ymarferwyr yn gallu defnyddio'r Storfa drwy broses beilot fanwl – manylion i ddilyn maes o law.

## Y DIWEDDARAF AM RAGLEN HYFFORDDIANT ADUS

- Mae gwaith datblygu a threialu hyfforddiant ADUS bellach wedi'i gwblhau gyda sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu ar draws y chwe bwrdd ar gyfer Cadeiryddion, Adolygwyr ac Aelodau Paneli. Bydd sesiynau ychwanegol ar gyfer cadeiryddion ac adolygwyr wedi cael eu cynnal ar 10 / 11 Medi.
- Mae'r Tîm Hyfforddi wrthi'n creu ystod o adnoddau digidol i dimau adolygu eu defnyddio.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**